# Cylchgrawn Digidol

Digital Zine
Rhifyn / Issue 3
Awst / August 2021

galeri

# Cynnwys / Contents


| | |
|---|---|
| Dod i nabod / Get to know | 3 |
| Galeri yn y Gymuned / Galeri in the Community | 5 |
| Cyfweliad George Egg / George Egg Interview | 7 |
| Gofod Creu | 9 |
| Un Noson Olaf | 15 |
| Beth Sydd Ymlaen / What's On | 17 |
| Lles / Welfare | 22 |
| Yn y Stiwdio | 24 |
| Portffolio | 26 |
| Cei Llechi | 30 |



















# Dod i nabod

**Rebecca Hardy-Griffith**
**Tîm  Creadigol - Celf a Chrefft**



Ymunodd Rebecca â Galeri yn Haf 2018 ychydig cyn i'r estyniad cyffrous o'r sinema, gofod aml-pwrpas Safle CREU a Siop Cywrain agor. Prif delystwydd Rebecca i'w cydlynnu a churadu arddangosfeydd yn Safle Celf, Safle CREU, Y Wal, Siop Cywrain ac Ar Y Ffram. Rebecca sydd hefyd yn cydlynnu gweithdai creadigol Galeri fel Clwb Celf Plant, Olwyn Lliw a Blasu Crefft.



Mae angerdd Rebecca tuag at addysg creadigol a llesiant wedi arwain at ddatlbylgu prosiectau fel ail-GREU gweithdai creadigol ar y cyd gyda Kaleidascope Gogledd Cymru, Jigsaw a Cais. Proseict gwerthfawr arall (mewn partneriaeth ag Oriel Mon)  yw Portffolio a Codi'r Bar sef prosiect creadigol ar gyfer pobol ifanc 14-19 oed fel rhan o Criw Celf.



Tu allan i Galeri mae Rebecca yn artist gweledol cyfoes o dan y enw Rebecca F Hardy www.rebeccafhardy.com artist aml-ddisgybliaeth sy'n gweithio'n gyfredol mewn cerflun, gosodiadau, argraffu ar sgrin, ffotograffiaeth a fideo.

Prosiect Cyfredol: MEWNrhwng mewn cydweithrediad â Jenny Cashmore, Najia Bagi a Gemma Lowe. Arddangosfeydd wedi'u cynllunio gydag Oriel CARN, Caernarfon ac Oriel Elysium ym 2021. Cefnogir yn ariannol gan Gyngor Celf Cymru.

Prosiectau / Arddangosfeydd Diweddar: Tŷ Pawb Open 2020, Gwyl y Ferch 2020, Rhaglen Ymgysylltu Cymru yn Fenis 2019, LLAWN07 Gŵyl Gelf Llandudno 2019, Trosoddiad [Meddiannu], Balaclafa, Caernarfon 2019, I'r Môr, CASTELL03 - Cydweithio â Najia Bagi, wedi'i guradu gan Manon Awst, Caernarfon 2018, mam.mom.mum, - Mewn cydweithrediad â 5 mam-artist benywaidd, Alana Tyson, Rebecca Gould, Elly Strigner, Emily Barrosa, wedi'i churadu gan Alana Tyson, Haus, Llandudno 2018.







Mae Rebecca wedi gweithio fel cydlynydd prosiect llawrydd a hwylusydd gweithdai am 15 mlynedd yng Nghaerdydd, Llundain a bellach yng Ogledd Cymru. Ar hyn o bryd mae hi'n gadeirydd y grŵp / rhwydwaith artistiaid CARN, ac ar bwyllgor Y Lle Celf, Eisteddfod Genedlaethol. Am 9 mlynedd roedd yn gyd-berchennog busnes creadigol DyfalDonc. Dechreuodd fusnes newydd yn creu fframiau pren naturiol unigryw a cyfoes, sef Stiwdio Ffram gyda'i gŵr a artist Morgan Griffith ym Methesda yn ystod y cyfnod clo.
www.stiwdioffram.com

@_rebeccafhardy
@stiwdioffram

# Galeri yn y Gymuned

George Amor, aeth am sgwrs i fwytu Y Crochan yng Nghaernarfon gyda Chris Summers. Dyma sut aeth y sgwrs...

**Pwy?**
Chris Summers ydw i, perchennog a phrif gogydd Y Crochan yng Stryd Twll yn y Wal, Caernarfon.

**Lle?**
Dwi yn dod o Rhosgadfan yn wreiddiol ond wedi tyfu fyny yn dre rhan fwyaf o'm mywyd.

**Ar gychwyn y pandemic nes di a chriw o wirfoddolwyr ddechrau cynllun 'Porthi Pawb' lle oedda'ch chi'n dosbarthu bwyd am ddim i'r rhai yn y gymuned oedd angen. Lle ddoth y syniad i ddechrau rhywbeth fel hyn?**
I fi, mae yna rhan sosialaeth fawr sydd ynddo fi lle dwi'n credu dylai neb yn y gymdeithas mynd heb fwyd de.

**Be di'r plan nesa efo Porthi Pawb?**
Da ni'n ganol cynllunio, datblygu a sefydlu cegin cymunedol fydd yn gartref i Porthi Pawb ac yn fana da ni'n gobeithio gallu datblygu mwy o brosiectau fatha prosiect Porthi Pawb lle da ni'n dosbarthu bwyd i bobl sydd wir ei angen o. Hefyd, ar ben hynny da ni'n gobeithio datblygu sesiynau coginio *one to one* i hyfforddi pobl i allu defnyddio cynhwysion dydyn nhw byth fel arfer yn defnyddio. Fel does na'm llawer o bobl yn gwybod be i wneud efo seleriac, di pobl erioed di edrych ar un heb sôn am wybod be i wneud efo un heb drio fo wedyn! Y pethau bach idda fi ond, gobeithio, petha mawr iddyn nhw dwi'n gobeithio cael dechrau rhywbeth o hynny.






**Be ti'n neud yn dy amser sbâr?**
Be ydi amser sbâr?! Pan ma gennai amser sbâr dwi yma'n neud rhywbeth sydd ddim yn coginio! Dwi'n ddyn prysur uffernol!

**Be di dy obeithion di am y dyfodol?**
Swn i'n licio agor mwy o fwytai erill fatha fama. Push the boat out a mynd am fwy o accolades. Ond mae gennai ambell i *pet project* bach lle dwi'n gobeithio cael datblygu un neu ddau o fwytai fast food. Byrgyrs Cymraeg iawn!
Ok, dwi'n deud 'byrgyrs Cymraeg' ond mae pawb yn gwybod ta yn America cafodd y byrgyr ei wneud yn boblogaidd, y dybl-cheese burger a'r milkshake a'r typical 50's feel! Dwi'n major *fan-boy* o'r *typical 50's* McDonald's look. Ie, ok, mae McDonald's di monopoleiddio'r farchnad efo'u *drive-thru's* a llefydd ar y stryd fawr ond mae'r feel good factor gwreiddiol dal yna, pan dwi'n mynd a'm mhlant am fwyd, eistedd i lawr, edrych mlaen at gael bwyta, mae nhw'n cael yr Happy Meal a'r tegan, mae 'na *feel good factor* a swn i'n licio gallu neud rhywbeth bach fel na. Ond mae 'na rywbeth yn cael ei weithio ar wrth i ni siarad, so cadwch eich llygada ar agor!

**Gair o gyngor…**
Peidio cymeryd bwyd yn siriys. Mae hyna'n dod o farn sydd gennai am fwyd. Mae isho mwynhau bwyd. I bobl ddim mynd allan i fwyta ac yn disgwyl i bobl plygu drosodd *backwards* achos bodau dynol da ni gyd. Mae pawb angen mynd i waith a joio, yn yr un modd a ma teulu angen bwyta. Ymlaciwch. Mwynhewch y bwyd. Peidiwch a cymeryd o'n rhy siriys. Hefyd, dwi feddwl bod angen mwy o sylw i'r diwydiant yma ar lefel gwleidyddol.






# GEORGE EGG

# MOVABLE FEAST

Ym mis Tachwedd (y 5ed) mi fydd y stand-yp hollol unigryw, George Egg yn perfformio yma'n Galeri. Dyma gyfweliad rhwng George a Naomi.

In November (5th) the truly unique stand-up comedian, George Egg makes his Galeri debut. Naomi interviewed George ahead of his visit.

**How would you describe your work in one sentence?**

The only comedian who cooks real food on stage with unconventional appliances, while doing stand up.

**How did you first discover your love for comedy cooking and what was the first non-culinary tool you used to make a meal?**

It all came from real life experience. When touring comedy clubs I used to cook in my hotel room with the appliances they provided, proper good food too. I did so to be mischievous but also because the room service options were generally pretty poor and always overpriced. So therefore the first unconventional cooking appliance would probably have to be the classic hotel room clothes iron.

**What is the most bizarre thing you've ever used to cook?**

That would have to be the wallpaper stripper. It's such an absurd machine with its long hose and steam billowing out of the paddle at the end, and the water bubbling away in the main chamber. It looks like something from a mad scientist's lab.



**At home, are you the cook? Do you use any of your techniques when cooking at home or is it only for the stage?**

Yes I do most of the cooking at home, and in a conventional kitchen too however some of the tools from the live shows have found their way into my home and frequently get used. The plumber's blowtorch of course, which a lot of chef's use, but less conventionally, the paint-stripping hot air gun which is less fierce and perfect for toasting the top of a cauliflower cheese.

**Have you received any memorable reactions to your work?**



I think the best reaction, and compliment, is when people recreate my dishes afterwards. I often get people contacting me on social media with photos of my dishes that they've made, sometimes using the tools and sometimes just at home with a normal cooker. I've also been creating some rather successful online content on instagram (@georgeegg) where I interfere with existing fast food options to improve them. I've made close to fifty 2-minute films called 'Snack Hacker' and during a few recent performances I've had numerous people talking to me about their experiences with those films and how it's made their kids eat things they wouldn't normally try. That's amazing and such a compliment.



**How do you like to relax?**

By cooking. Genuinely. If I wasn't doing this I'd have a cookery business of some kind - either a cafe or a restaurant or something like that. I could happily get up in the morning and start cooking until it's time to go to bed.

**Who or what inspires you?**



So many things. Creative interesting comedians like Tim Key, and absurd silly comedians like Harry Hill. And then chefs and food people too. There's a food writer called Miriam Nice who's doing a superb series called 'Will It Cereal?' on Instagram at the moment which you should definitely check out. I think the biggest inspiration is the Italian chef Gennaro Contaldo who often pops up on tv and more frequently pops up on the internet. He's so talented and creative but more than that he's the most natural clown. Such a lovable and watchable person.

**What's next for George Egg?**

The Instagram content is proving to be a hit and there'll be a lot more of that. I have occasional guest from the food and comedy worlds too with their own ideas and I've some great people coming up as well as some amazing recipes. Live-wise, I'll be touring this show 'Movable Feast' up until the end of the year and then I'm not totally sure. I thought I might do a 'best of' show with the most interesting and delicious recipes from all three comedy/cooking shows (I've done two other shows, one about hotel room cooking and one about cooking in a shed with power tools), and after that I think I'll write a show based around the Instagram 'Snack Hacker' project.

**Gwener | Friday**
**05.11.21**
**19:30**
**£12/£10**
**galericaernarfon.com**

# GOFODCREU

Rydym yn falch iawn bod prosiect Gofod Creu wedi parhau. Dyma gasgliad o rai o'r artistiaid/cerddorion sydd wedi manteisio ar Gofod Creu dros y misoedd diwetha'. Am fwy o wybodaeth am y prosiect: galericaernarfon.com/gofodcreu

We are delighted that Gofod Creu has continued. Here is a selection of some of the artists/musicians who have been here in Galeri as part of the project over recent months. For further information on Gofod Creu: galericaernarfon.com/gofodcreu













# Bitw

**Be wyt ti wedi bod yn ei wneud yma yn Galeri?**
Gorffen sgwennu ail record Bitw, a recordio chydig o leisiau ar ei chyfer.

**Ar be wyt ti yn ei wrando arno ar hyn o bryd?**
Ar ôl y newyddion trist am David R Edwards chydig wythnosau nôl mi es i nôl i ailwrando ar bob un o recordiau Datblygu, a nes i ddim stopio. Dwi hefyd wedi bod yn gwrando dipyn ar record newydd Pys Melyn (Bywyd Llonydd) a stwff Twinfield – wastad yn gyffrous gweld beth fydd o'n neud nesaf.

**Unrhyw gigs ar y gweill?**
Dim byd yn y dyfodol agos – gobeithio trio gneud mymryn tua'r gaeaf a cychwyn y flwyddyn newydd.

**Unrhyw gyngor I fandiau/artistiaid ifanc?**
Does dim angen stiwdio sy'n codi cannoedd bob dydd na offer drud i gychwyn recordio; trystiwch yn eich greddf a pobl sy'n gwrando ar lot o gerddoriaeth a fedrwch chi greu stwff anhygoel yn eich stafell wely.

**Pwy fysa dy gerddor delfrydol I gydweithio gyda?**
Dwi ddim yn siŵr os dwi'n un da iawn am gydweithio! Ond dwi'n meddwl fysa fo'n neud lles i fi weithio rhyw dro efo rhywun sy'n recordio mewn ffordd reit uniongyrchol a ffwrdd-â-hi, achos dwi'n tueddu i drio cadw opsiynau'n agored a gorfeddwl pethau.

**Pa wyliau/gigs wti'n ei edrach ymlaen at?**
Mae'n braf cael gŵyl Green Man yn ôl mlaen eleni. Edrych mlaen hefyd am gigs yn y gaeaf lle ma pawb yn gwisgo cotiau.



@bitwbitwbitw




Mae Bitw ar gael i'w ffrydio rwan!

# Lowri
# Drakley

Rhoddodd fy amser yn Gofod Creu y Galeri le i mi ysgwyd fy nhrefn a chanolbwyntio ar fy ngwaith mewn ffordd anniben. Lle gallwn edrych ar syniadau gyda phersbectif newydd a chael mewnweledìad i ymateb y cyhoedd (chwilfrydig ac mewn sawl achos yn wybodus) i'r gwaith. Mae fy ngwaith yn canolbwyntio ar greu perthnasoedd agosach â'n hamgylchedd ac yn edrych i'r byd naturiol am ysbrydoliaeth ac fel ffynhonnell lliw trwy lliwio naturiol. Mae fy mhroses greadigol yn archwilio ail-wynebu - trwy anadlu bywyd newydd iddynt i greu tecstilau ffres, wedi'u crefftio â llaw.

*My time in Galeri gave me the space to shake up my routine and focus on my work in an uncluttered way. Where I could look at ideas with a new perspective and gain insight to the public's (refreshingly, curious and in many cases informed) response to the work. My work centres on forging closer relationships with our environment and looks to the natural world for inspiration and as a source for colour through natural dyes. My creative process explores repurposing - honouring thrifted cloth by breathing new life into them to create fresh, hand-crafted, heritage textiles.*

**@lowridrakley**









# UN NOSON OLAF
# TEGWEN BRUCE-DEANS

**Yr ysgrifennwr creadigol, Tegwen Bruce-Deans ydi ein gwestai ar gyfer pennod rhif pedwar. Mae Tegwen yn trafod bwyd Eidaleg, Vincent van Gogh a cherddoriaeth o Gymru.**

**The creative writer, Tegwen Bruce-Deans is our guest for episode number four. Tegwen talks about Italian food, Vincent van Gogh and music from Wales.**

**Pennod 4 allan rwan!**
***Episode 4 out now!***

Spotify Anchor by Spotify YPOD AM



# UN NOSON OLAF
# KRISTIA BANHOLZER

**Kristina Banholzer ydi ein gwestai ar gyfer pennod rhif pump. Mae Kristina yn trafod bwyd Ewropeaidd, ffotograffiaeth dogfenol a bandiau pres mewn syrcas.**

**Kristina Banholzer is our guest for episode number five. Kristina talks about European food, documentary photography and brass bands in circuses.**

**Pennod 5 allan rwan!**
***Episode 5 out now!***

Spotify Anchor by Spotify YPOD



# Beth i'w ddisgwyl pan yn dychwelyd i Galeri…
# What to expect when returning to Galeri…

Mi fydd y profiad o ymweld â Galeri yn wahanol i ddyddiau cyn Covid yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac ein asesiad risg.

Mae gennym dudalen penodol ar ein gwefan sydd yn ateb eich cwestiynnau a'ch pryderon o ran ymweld â Galeri:

**galericaernarfon.com/covid19**

Wrth i ddigwyddiadau byw yn y theatr ddychwelyd, rhaid nodi'n glir ei fod yn gyfraith gwlad i wisgo mwgwd pan yn eistedd yn y theatr.

Mae'r system awyru yn yr adeilad yn golygu bod awyr iach cyson yn cael ei ddefnyddio yn ein gofodau perfformio (theatr/sinema/stiwdio). Does dim yn cael ei ail-gylchu.

Cofiwch ddarllen y wefan cyn ymweld â Galer – byddwn yn diweddaru fel mae'r canllawiau/mesurau yn newid. Edrychwn ymlaen i'ch croesawu nol yn fuan iawn.

==

Your visit to Galeri will be different to the pre-covid experience in-line with Welsh Government guidelines and our risk assessment.

We have created a dedicated page on our website to answer your questions before you purchase a ticket and visit Galeri:

**galericaernarfon.com/covid19**

As live events in the theatre return in September, we must stress that it is a legal requirement to wear a face covering whilst seated in the theatre.

With regards to ventilation, all performance spaces (theatre/cinema/studio) bring in fresh air from the outside and extract air from the spaces to the outside – no air is recirculated.

Please read the website before your visit, it will be updated as/when measures change. We hope to see you in Galeri soon.

# Beth Sydd Ymlaen...
# What's On...




## Mick Fleetwood & Friends [12A]
## 07.09.21 19:30

Y cerddor Mick Fleetwood (Fleetwood Mac) sydd wedi casglu rhai o gerddorion mwyaf enwog y byd i berfformio mewn cyngerdd arbennig yn theatr y Palladium, Llundain nol ym mis Chwefror 2020. *Darlleniad ar sgrîn yw hwn.
*Mick Fleetwood has assembled a stellar cast of musicians to celebrate the music that established Fleetwood Mac as one of the biggest bands in the world – the music of Peter Green.*This is a broadcast on screen.*

## Calan 18.09.21 19:30

Mae'r band rhyngwladol arobryn o Gymru ar y ffordd yn ôl i Galeri! Maent yn chywthu tân drwy"r hen draddodiadau gyda'u rhythmau atgofus a'u harferion bywiog cyn arafu gyda rhai o'r caneuon harddaf wrth iddynt archwilio hud a chwedlau Cymru.
*Calan - the international award-winning band from Wales are one their way back to Galeri!*
*They breathe fire into the old traditions with their evocative rhythms and lively routines before slowing down with some of the most beautiful songs as they explore the magic and myths of Wales.*






## Darkside The Pink Floyd Show
## 24.09.21 + 25.09.21 20:00

Mae Darkside : The Pink Floyd Show yn dychwelyd i Galeri am ddwy noson eto eleni fel rhan o'u taith diweddaraf… Yn un o fandiau teyrnged mwyaf poblogaidd Pink Floyd sydd yn teithio ers 16 mlynedd bellach, dyma ddwy noson arbennig iawn. Ar y nos Wener, bydd perfformiad o'r albwm Dark Side of the Moon ac yna ar y nos Sadwrn fydd y cyngerdd yn cynnwys perfformio albwm llawn Animals.

*Darkside, The Pink Floyd Show, performing the music of Britain's greatest progressive rock band, makes a welcome return to Galeri with two evenings of classic Pink Floyd.*
*After 16 years of touring, playing at theatres across the UK, seven musicians will deliver two shows with empathy and passion playing tracks from Pink Floyds massive back-catalogue, from the early magical days of founder Syd Barrett through to later iconic albums, renowned for their complex structures.*
Friday will include the entire Dark Side of the Moon and Saturday will include the whole of the Animals album.

# The Rheingans Sisters
## 13.10.21 19:30

Mae'r Rheingans Sisters yn creu cerddoriaeth chwareus, bwerus sy'n gwbl gyfoes tra bod ei gwreiddiau'n ddwfn mewn traddodiadau gwerin. Enwebir yr aml-offerynwyr, cyfansoddwyr ac ysgolheigion gwerin gwobrwyedig hyn am y 'Deuawd/Grŵp Gorau' yng Ngwobrau Gwerin BBC Radio 2 2019.

*The Rheingans Sisters make playful, powerful and richly connecting music that is wholly contemporary while deeply anchored in folk traditions. The award-winning multi-instrumentalists, composers and folk scholars are nominated for 'Best Duo/Group' at 2019 BBC Radio 2 Folk Awards.*





## Noson yng Nghwmni
# Gruffydd Wyn
## 20.10.21 19:30

Yn lais ac yn wyneb cyfarwydd i ni yma yng Nghymru bellach, dyma noson yng nghwmni'r canwr talentog o Amlwch, Môn – Gruffydd Wyn.

*Gruffydd Wyn is a talented classical crossover artist who hails from Amlwch continues to follow his dream of becoming a world class vocal performer..*

# Reslo Byw | Welsh Wrestling
## 23.10.21 19:00

Dewch i gael blas ar y goreuon o'r byd reslo yng Nghymru…Ymunwch â ni am noson llawn adloniant cyffrous wrth i'r sioe reslo deithio ymweld a ni am un noson yn unig!Sioe i'r teulu cyfan!

*Live Superstars of Welsh Wrestling make a triumphant return to Caernarfon.Come and experience the excitement and atmosphere first hand as top names in British wrestling battle it out in an evening of high impact wrestling action, suitable for all the family.Witness the thrills and spills of American style wrestling, an event normally only reserved for your TV screens*



**Tocynnau ar gael ar ein gwefan.**
**Tickets available on our website.**

**galericaernarfon.com**

# DANGOSIADAU ARBENNIG
# SPECIAL SCREENINGS

Fel rhan o Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm y BFI, mewn partneriaeth â Canolfan Ffilm Cymru, rydym yn falch o gyflwyno pedair ffilm arbennig iawn – un pob nos Lun drwy gydol mis Medi…

As part of the BFI's Film Audience Network, and in partnership with Film Hub Wales, we are delighted to present four very special films – with a different title shown every Monday evening throughout September…



**SOUND OF METAL [15]**
*yn cynnwys sesiwn holi ac ateb ar y sgrîn
*including q&a on-screen

Llun | Monday 06.09.21 19:00



**ANOTHER ROUND [12A]**
*yn cynnwys sesiwn holi ac ateb ar y sgrîn
*including q&a on-screen

Llun | Monday 13.09.21 19:00



**LIMBO [12]**
*yn cynnwys sesiwn holi ac ateb ar y sgrîn
*including q&a on-screen

Llun | Monday 20.09.21 19:00



**BALLOON [12A]**
*yn cynnwys sesiwn holi ac ateb ar y sgrîn
*including q&a on-screen

Llun | Monday 27.09.21 19:00

**POB TOCYN | ALL TICKETS: £5**

Bydd cyfle i un cwsmer lwcus [pob ffilm] dderbyn tanysgrifiad blwyddyn BFI Player (wedi'i ddewis ar hap)
One lucky customer [per film] will receive a 12 month BFI Player subscription (chosen at random)

BFI FAN BFI FILM AUDIENCE NETWORK | THE NATIONAL LOTTERY | Film Hub Wales Canolfan Ffilm Cymru

THEATR bc BARA CAWS

Actorion:




Sharon Morgan



Eiry Thomas



Kizzy Crawford




**Cyfarwyddo:**
Betsan Llwyd

**Cerddoriaeth:**
Lleuwen Steffan

**Coreograffi:**
Eddie Ladd

galeri Caernarfon

## Gwener 01-10-21 am 20:00
## Sadwrn 02-10-21 am 20:00

Tocynnau: galericaernarfon.com

Dau berfformiad o flaen cynulleidfa fyw (capasiti llawn) yn Galeri gyda'g opsiwn hefyd i ffrydio adref.

Canllaw oed: 14+


Diolch:
RONDO
engie
MITSUI & CO.

Ymunwch â ni ar facebook
Dilynwch ni ar twitter
www.theatrbaracaws.com

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government
Noson Allan Night Out
Cyngor Gwynedd Council
Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy County Borough Council
Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council

# Lles
# Welfare

Dyma weithgareddau a chaneuon sydd wedi ei ddewis gan aelodau staff sydd yn helpu iddynt ymlacio. Be am i chi drio rhai?

*Here are activities and songs choosen by staff members that help them relax. How about you try some?*



## George Amor
### Galeri yn y Gymuned
### *Galeri in the Community*

1. Gorwedd yn fy hamoc
   *Lying in my hamoc*

2. Mynydda
   *Mountaineering*

3. Gyrru i rhywle distaw ac aros yn y fan
   *Driving somewhere quiet and stay in the van*



Vinyl Williams – Soft Soul
Khotin – Heavyball
Anne Martin – Uamh An Oir
Deux Filles – The Story
Kikagaku Moyo – Orange Peel




## Sonia Pritchard
### Cyfarwyddwr Busnes a Chyllid
### *Buisness and Finance Director*

1. Rhedeg
   *Running*

2. Mynydda
   *Mountaineering*

3. PIYO (Power Yoga)
   *PIYO (Power Yoga)*




Deacon Blue - Dignity
The Verve - Lucky Man
Madonna - Cherish
Phil Collins - In The Air Tonight
Cyndi Lauper - Girls Just Wanna Have Fun



# Iona Davies

## Rheolwr Gweinyddu ac Adnoddau Dynol
## *Administration and Human Resources Manager*

1. Cael picnic efo fy wyrion
   *Having a picnic with my grandchildren*

2. Mordeithio
   *Going on a cruise*

3. Gwneud dosbarthiadau ymarfer corff
   *Excercise classes*




Pharell Williams - Happy
Jack Savoretti a Nile Rodgers - Who's Hurting Who
Take That - Greatest Day
REM - Losing My Religion
Richie Thomas - Hen Rebel Fel Fi



# Dewi Jones

## Gweinyddwr Adnoddau
## *Facilities Administrator*

1. Mynd i Llyn Padarn gyda fy mwrdd padlo
   *Go to Llyn Padarn with my paddle board*

2. Beicio
   *Biking*

3. Gwylio ffilmiau
   *Watching films*



Ed Sheeran and Justin Bieber - I Don't Care
Cold play - Viva La Vida
Journey - Don't Stop Believing
Van Halen - Jump
Snow Patrol - Chasing Cars

**Cerwch i wrando ar ein rhestr chwarae Lles / Welfare ar Spotify Galeri!**
*Go and listen to our playlist Lles / Welfare on Galeri's Spotify!*




# Yn y Stiwdio

## Lisa Carter Grist

Mi oedd hi'n bleser i ymweld a stiwdio Lisa yn Llannefydd ddechrau mis Awst. Mae gwaith lisa wedi'i gynnwys mewn sioeau grŵp ledled y DU yn fwyaf diweddar yn ‘Flirting With The Border Guards’, Terrace Gallery, Llundain 2021. Cafodd ei dewis ar gyfer Gwobr Peintio Beep 2020. Mae Lisa hefyd wedi arddangos gwaith yn yr Arddangosfa Haf yn Academi Frenhinol y Celfyddydau, Llundain yn 2019 a 2015 ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2009, 2013 a 2019.

Bydd arddangosfa unigol lisa yn y Safle Celf o'r 4ydd o Fedi 2021.






WWW.LISACARTERGRIST.COM

@LISACARTERGRIST



# portffolio

## YSGOL CELF HAF SUMMER ART SCHOOL

### 03/08/21 – 13/08/21

DROS GYFNOD O 8 DIWRNOD YM MIS AWST, DAETH ARTISTIAID IFANC (14-18 MLWYDD OED) I GALERI AM YSGOL HAF CELF FEL RHAN O PORTFFOLIO.

PWRPAS PORTFFOLIO YW I DDATBLYGU SGILIAU, MAGU HYDER A CYNNIG CYFLE I ARTISTIAID IFANC YR ARDAL FOD YN GREADIGOL, DAN ARWEINIAD ARTISTIAID PROFFESIYNOL.



OVER 8 DAYS IN AUGUST, YOUNG ARTISTS (14-18 YEARS OLD) CAME TO GALERI AND PARTICIPATED IN PORTFFOLIO'S SUMMER ART SCHOOL.

PORTFFOLIO IS AN ART PROGRAMME THAT PROVIDES OPPORTUNITIES FOR YOUNG EMERGING ARTISTS FROM THE AREA TO DEVELOP SKILLS AND BE CREATIVE UNDER THE TUITION OF PROFESSIONAL ARTISTS.


CREU MAKE

CELF ART

YSBRYDOLI INSPIRE

DYSGU LEARN

DATBLYGU DEVELOP






portfolio


GLASSLINE
DARK BLUE
GLASSLINE
TURQUOISE
GLASSLINE
CRIMSON







portfolio

# portffolio

RHWNG 04.09.21 – 26.09.21 BYDD POSIB GWELD GWAITH YR ARTISTIAID IFANC MEWN ARDDANGOSFA YN Y SAFLE CREU.

BETWEEN 04.09.21 – 26.09.21 THERE WILL BE AN OPPORTUNITY TO SEE THE WORK OF THE YOUNG ARTISTS IN A SHOWCASE IN GALERI'S SAFLE CREU.

@PORTFFOLIO_CODIRBAR


ORIEL MÔN

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

galeri

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Criw Celf

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# CEI LLECHI

Braf iawn yw gallu cyhoeddi bod Cei Llechi bellach wedi agor, gyda rhai busnesau yn weithredol o'r safle yn barod a mwy ar y ffordd yn fuan iawn.

Fel rhan o'r prosiect adfywio, mae bocsus celf wedi'u lleoli ogwmpas y safle fydd yn arddangos gwaith artistiaid amrywiol.

Am weddill 2021, gwaith pedair artist fydd yn y bocsus sydd wedi cael eu dethol rhwng Galeri, yr artist Bedwyr Williams a CARN. Mae'r artistiaid wedi creu gwaith newydd sbon gan ddefnyddio Caernarfon fel thema ac ysbrydoliaeth. Dyma fwy o wybodaeth:

Ww are delighted that Cei Llechi has now open to the public and that we have businesses operating from the site and more to open soon.

As part of the regeneration project, we included art boxes dotted around the site to display work created by various artists/makers.

For 2021, we will be showcasing the work of four female artists selected by Galeri, artist Bedwyr Williams and CARN. The artists have created new pieces of work using Caernarfon as the theme and inspiration. Here are the artists:

## Beca Fflur

Casgliad o botiau wedi eu hysbrydoli gan dirwedd a hanes yr ardal. Mae'r potiau wedi eu creu allan o ddarnau gwastraff llechi a jesmonite sy'n adlewyrchiad o weddillion Rhufeinig a ganfuwyd yn y dref. Mae'r lliwiau glas a llwyd yn dynodi'r dwr a'r llechi syn gymaint rhan o'r tirlun a'r patrymau yn cael ei ffurfio ar hap gan greu siapiau sy'n efelychu'r dwr a hwyliau ar y Fenai.

///\\///\\///\\///\\///\\///

A series of vessels inspired by the landscape and history of the area. Each pot is made from pieces of slate and jesmonite waste, which reflect the fragments of Roman ruins found within the town. The casting process produces a fragmented and unstructured pattern of blues and greys which mirror the slate and sea which are so prevalent in the landscape.

Instagram @beca_fflur





CEI LLECHI

# Catrin Menai

Y MYNYDD BACH

Cefais fy nhynnu at Y Mynydd Bach yng ngerddi Glynllifon, man gwag a adeiladwyd i Blant gyflawni eu breuddwydion a'u dyheadau.

Yn nho'r mynydd mae twll sy'n goleuo'r tu mewn, lle mae teganau plant yn cael eu pwyso i mewn i waliau crwm o lechi. Rwy'n credu bod rhai o'r tryciau a'r trenau wedi diflannu erbyn hyn, ond mae'r ddelwedd yn aros gyda mi.

Mae Glynllifon hefyd yn lleoliad nofel hanesyddol yr oedd fy Mam ar un adeg yn ei hysgrifennu, yn seiliedig ar ddirgelion teulu Newborough. Nid wyf yn siwr pa mor ddirgel oedd y teulu mewn gwirionedd, ond fel plentyn roeddwn yn credu bod tresmasu fy Mam ar wahanol ymylon yr ardd yn ddilys ac yn esgusodol, er mwyn stori ysbryd da.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, dychmygodd fy ffrind Sean Curley a minnau wrthrych trwy sgwrs yr oeddem yn ei chael am Y Mynydd Bach. Casglwyd, copïwyd a thorrwyd deunyddiau, cerfiwyd geiriau i frics llechi a'u defnyddio i ddal copïau o'r darn o Nofel.

Helpodd Sean i adeiladu'r Mynydd ym 1989, a phan ofynnais iddo gerfio geiriau i'r llechen dewisodd gerfio yn yr enwau canlynol:
Morgan Parry
Ioan Bowen Rees
Tamara Kikorian

*"The three names were instrumental in establishing and supporting the idea of children's literature ...the whole interior dreamscape and escape of stories. They continued to support against much opposition within the council etc. The mynydd is a cultural punctuation in a bland financial crisis".*

Hir oes y mynydd bach.




## Rita Ann Jones

## Y Fenai

Mae ' Y Fenai' yn cynrychioli'r ardal hon o'r Cei Llechi i mi. Wedi'i greu o eitemau a olchwyd i'r lan gan YFenai, ac a ysbrydolwyd gan y cychod yn ystod llanw isel a'u goleuadau yn ystod hwyliau'r nos. Mae hefyd yn fy atgoffa o'm mhlentyndod, pan werthodd y siop anrhegion leol cywrain – 'cwch mewn botel' rhai flynyddoedd lawer yn ôl.

'Y Fenai' represents this area of the Slate Quay for me. Created from items washed to shore by the Menai Straits, and inspired by the boats during low tide and their lights during night times sailing. It is also reminiscent of my childhood, when the local gift shop sold the intricate 'ship in a bottle' many years ago.

CEI
LLECHI

# Laura Cameron

## ATGYNHYRCHIAD / REPLICAS

'Atgynhyrchiad' o eitemau sy'n perthyn i Ceriswen, prif feddyges llwyth Celtaidd yr Ordovices, a'i chyd-feddygesau, dyddiedig tua 80 O.C. Ystyrid hi'n wraig garismataidd a gwybodus a greuodd feddyginiaethau ar gyfer aelodau ei llwyth Roedd yna sôn hefyd bod Ceriswen a'i chyd-feddygesau'n ymhél â hud a lledrith, yn bennaf, mae'n siwr, am eu bod mor llwyddiannus wrth wneud eu gwaith ac am eu bod yn defnyddio planhigion anghyffredin o bedwar ban byd. Erbyn hyn, dim ond mewn chwedloniaeth y mae enw Ceriswen yn bodoli.

\\\///\\\///\\\///\\\///\\\///\\\///\\\///\\\///\\\///\\\///\\\///\\\///\\\///\\\

'Replicas' of items belonging to Ceriswen, chief healer of the Celtic Ordovices tribe and her all-female group of healers. c.80AD Ceriswen was known as a charismatic and knowledgeable woman who created medicines for her tribe. Ceriswen and her healers were always shrouded in rumours of sorcery, probably borne out of their high success rate and the use of unusual plants from across the globe. Her name has since retreated into myth.

www.lostinthewood.co.uk
Instagram: @laura_lostinthewood



CEI
LLECHI

# Diolch yn fawr
# Thank you

galeri

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL